

PWYLLGOR SAFONAU

Cofnodion cyfarfod anghysbell a gynhaliwyd ar 24 Tachwedd, 2022.

Mae'r Agenda ar [gael yma](#).

Mae recordiad y cyfarfod ar [gael yma](#).

Yn Bresennol: R. Hendicott (Cadeirydd); L. Tinsley Is-Gadeirydd); R. Alexander, P. Hallett a G. Watkins (Aelodau Annibynnol), Cynghorwyr R.M. Birch a C.P. Franks.

475 CYHOEDDIAD –

Cyn cychwyn busnes y Pwyllgor, darllenodd y Prif Swyddog Gwasanaethau Democratiaid a Chraffu y datganiad a ganlyn: "A gaf i atgoffa pawb sy'n bresennol y bydd y cyfarfod yn cael ei ffrydio'n fyw yn ogystal â'i recordio trwy'r rhyngwyd ac mae'r recordiad hwn wedi'i archifo i'w weld yn y dyfodol".

476 YMDDIHEURIAD AM ABSENOLDEB –

Derbyniwyd hwn gan y Cynghorydd J.E. Charles.

477 COFNODION –

ARGYMHELLWYD – CYMERADWYO cofnodion y cyfarfod a gynhaliwyd ar 6 Hydref, 2022 fel cofnod cywir, gan nodi bod yr Aelodau wedi gwneud sylwadau yn y cyfarfod diwethaf eu bod yn disgwyl i geisiadau am ollyngiad dodd i law mewn modd amserol.

478 DATGANIADAU BUDDIANT –

Datganodd y Cynghorydd C.P. Franks ddiddordeb yn eitem 4 ar yr agenda o ystyried cais y Cynghorydd Buckley ynghylch Ysgol Y Deri a dywedodd y byddai'n cyflwyno cais tebyg a gadawodd yr ystafell pan ystyriwyd y cais hwn.

479 CAIS AM GANIATÂD (SM/PGCD) -

Roedd Rheoliadau'r Pwyllgor Safonau (Caniatáu Gollyngiadau) (Cymru) 2001 yn caniatáu i'r Aelodau wneud cais i'r Pwyllgor Safonau i siarad am, ac os yw'n briodol, i bleidleisio ar faterion na fyddent fel arall yn gallu siarad amdanynt neu bleidleisio arnynt neu aros yn yr ystafell wrth iddynt gael eu trafod oherwydd buddiannau rhagfarnol. Wedi ystyried y ceisiadau, dywedodd y Swyddog Monitro, o ran y cais ar gyfer Ysgol y Deri, mai ei hargymhelliad hi fyddai ystyried paragraff (d) ac nid paragraff (e) gan fod hyn yn cyfeirio at y ffaith bod y buddiant yn gyffredin i'r Aelod a chyfran sylweddol o'r cyhoedd.

Yn dilyn ystyriaeth ofalus o'r ceisiadau,

PENDERFYNWYD – BOD y goddefebau fel y'u nodir yn yr atodlen isod yn cael eu caniatáu hyd at ddyddiad yr Etholiadau Llywodraeth Leol nesaf:

Aelod sy'n Gofyn am Oddefeb	Paragraff(au) Rheoliadau'r Pwyllgor Safonau (Caniatáu Goddefebau) (Cymru) 2001 - y caniateir goddefebau oddi tanynt ac y gwnaed cais amdanynt oddi tanynt	Penderfyniad
Y Cynghorydd I. Buckley	(ch)	Rhoddwyd caniatâd i siarad a phleidleisio ar unrhyw fater yn ymwneud ag Awdurdod Gwasanaeth Tân ac Achub De Cymru yng nghyfarfodydd Cyngor Bro Morgannwg a Chyngor Tref Penarth er bod aelod o'r teulu'n gyflogedig gan yr Awdurdod Tân.
Y Cynghorydd I. Buckley	(ch), (dd) a (g)	Rhoddwyd caniatâd i siarad a phleidleisio ar bynciau'n gysylltiedig â Rhaglen Ail-lunio Cyngor Bro Morgannwg pan gânt eu trafod yng nghyfarfodydd Cyngor Bro Morgannwg a Chyngor Tref Penarth fel y bo'n briodol.
Y Cynghorydd I. Buckley	(ch)	Rhoddwyd caniatâd i siarad a phleidleisio ar faterion yn ymwneud ag Ysgol y Deri er bod ei ferch yn gyflogedig yno.

Rheswm dros y penderfyniad

Cydymffurfio â'r rheoliadau a'r rhwymedigaethau ar gyfer rhoi caniatâd i siarad a phleidleisio.

480 OMBWDSMON GWASANAETHAU CYHOEDDUS CYMRU CYNLLUN STRATEGOL 2023-2026. (SM/PGCD) –

Rhoddodd yr adroddiad wybod i'r Pwyllgor am y Cynllun Strategol a gyhoeddwyd gan Ombwdsmon Gwasanaethau Cyhoeddus Cymru (yr Ombwdsmon).

Manylodd atodiad 1 yr adroddiad ar Gynllun Strategol Drafft yr Ombwdsmon ar gyfer 2023- 2026 a roddodd fanylion rôl, uchelgais, egwyddorion a nodau strategol Swyddfa'r Ombwdsmon.

Pedwar nod strategol swyddfa'r Ombwdsmon oedd:

- (1) Sicrhau cyfiawnder ag effaith gadarnhaol i bobl a gwasanaethau cyhoeddus
- (2) Gwella hygyrchedd a chynhwysiant
- (3) Ehangu ei gwaith gwella rhagweithiol
- (4) Sicrhau sefydliad iach, effeithlon ac atebol.

Dywedodd Mrs. Tinsley (Aelod Annibynnol), ar ôl ystyried yr adroddiad, ei bod yn ddogfen ddiddorol, fodd bynnag roedd hi'n pryderu nad oedd sôn am brydlondeb delio â chwynion a dderbynnir a dywedodd ei bod yn bwysig delio â materion o'r fath mewn modd amserol.

Tynnodd yr Aelodau sylw hefyd at y ffaith bod y llwythi achos yn debygol o gynyddu yn y dyfodol a fyddai'n cael cryn effaith ar lwyth gwaith Swyddfa'r Ombwdsmon ac Awdurdodau Lleol.

Ar ôl ystyried y Cynllun Strategol Drafft,

PENDERFYNWYD –

(1) BOD sylwadau'r Pwyllgor ar y Cynllun Strategol drafft fel isod, yn cael eu hanfon ymlaen gan y Swyddog Monitro i'r Ombwdsmon Gwasanaethau Cyhoeddus:

- cyfeiriad i'w wneud yn y Cynllun Strategol at brydlondeb delio â chwynion;
- ac
- o ystyried y tebygolrwydd y gallai llwythi achosion gynyddu, cyfeiriad i'w wneud yn y Cynllun at ystyried goblygiadau ar gyfer adnoddau i Swyddfa'r Ombwdsmon ac Awdurdodau Lleol.

(2) BOD yr ymateb a amlinellir ym Mhenderfyniad (1) uchod yn cael ei gymeradwyo gan y Cadeirydd, cyn anfon a'r llythyr i'w gyflwyno i gyfarfod nesaf y Pwyllgor Safonau er gwybodaeth.

Rheswm dros y penderfyniadau

(1) Rhoi sylw i gynnwys yr adroddiad a hysbysu Ombwdsmon Gwasanaethau Cyhoeddus Cymru o sylwadau'r Pwyllgor.

(2) I ofyn am gymeradwyaeth y Cadeirydd cyn anfon y llythyr ac i hysbysu'r Pwyllgor yn unol â hynny.

481 LLYTHYR ODDI WRTH OMBWDSMON GWASANAETHAU CYHOEDDUS CYMRU YNGLŶN Â CHANLLAWIAU A PHROSES CWYNION Y COD YMDDYGIAD (SM/PGCD) –

Roedd holl Gadeiryddion Pwyllgorau Safonau yng Nghymru wedi cael llythyr gan Ombwdsmon Gwasanaethau Cyhoeddus Cymru yn rhoi gwybod am fân newidiadau i Broses a Chanllawiau Cwynion Cod Ymddygiad swyddfa Ombwdsmon Gwasanaethau Cyhoeddus.

Atodwyd copi o'r llythyr a dderbyniwyd dyddiedig 10 Tachwedd 2022 i'r adroddiad.

Dyweddodd y Cadeirydd, eto wedi ystyried yr adroddiad blaenorol ar yr agenda, ei bod yn bwysig bod ymchwiliadau'n dod i ben cyn gynted â phosibl gan y gallai unrhyw oedi olygu y gallai cyfranogwyr a thystion fod wedi dinistrio unrhyw ffeiliau yn y cyfamser.

Tynnodd Mrs. Hallett hefyd, fel y soniwyd yn yr eitem agenda flaenorol, sylw at yr effaith debygol ar gyfer adnoddau ar yr Awdurdod Lleol a'r Pwyllgor Safonau ei hun. Dywedodd y Swyddog Monitro y gallai fod yn werth aros i weld sut y cafodd y cynigion newydd eu gwireddu, gan nodi nad oedd y Cyngor yn derbyn nifer sylweddol o gwynion gan swyddfa'r Ombwdsmon ar hyn o bryd a bod y Cyngor ei hun wedi cyflwyno rhaglen o hyfforddiant gorfodol i'w Aelodau. Roedd Cyngorau Tref a Chymuned (CTCh) hefyd wedi derbyn hyfforddiant Cod Ymddygiad oedd wedi cael ei gomisiynu gan Gyngor Bro Morgannwg a'i gynnal gan Un Llais Cymru.

Ar ôl ystyried yr adroddiad, fe wnaeth y Pwyllgor wedyn

PENDERFYNWYD – Y dylid nodi cynnwys yr adroddiad a'r llythyr a oedd ynghlwm fel Atodiad i'r adroddiad a bod yr un peth yn cael ei anfon ymlaen at holl Gyngorwyr a Chlercod Cyngorau Tref a Chymuned Bro Morgannwg er gwybodaeth.

Rheswm dros y penderfyniad

Gan ystyried cynnwys yr adroddiad a'r trafodaethau yn y cyfarfod.

482 SYLWADAU GAN AELODAU ANNIBYNNOL CYNGOR BRO MORGANNWG/ GYFARFODYDD PWYLLGORAU CYNGHORAU TREF A CHYMUNED (SM/PGCD) –

Un o rolau'r Pwyllgor Safonau oedd hyrwyddo a chynnal safonau ymddygiad uchel gan Gyngorwyr, Aelodau Cyfetholedig a chynrychiolwyr Eglwys a Rhiant-Lywodraethwyr y Cyngor.

Er mwyn cynorthwyo'r broses hon, ym mis Mawrth 2018, cytunodd Aelodau Annibynnol y Pwyllgor Safonau i arsylwi ar gyfarfodydd Cyngor Bro Morgannwg ac

adroddwyd am yr arsylwadau hynny i'r Pwyllgor Safonau. Ym mis Mawrth 2019 estynnwyd y broses hon i arsylwi hefyd ar gyfarfodydd CTCh.

Cyflwynwyd adroddiadau adborth mewn perthynas â'r arsylwadau a wnaed i'r Swyddog Monitro a chyflwynwyd diweddariadau generig llafar o'r adroddiadau i'r Pwyllgor Safonau gan Aelodau Annibynnol yn rheolaidd. Gwnaed unrhyw arsylwadau a oedd yn gofyn am drafodaeth benodol gyda Phrif Weithredwr Cyngor Bro Morgannwg neu Gadeirydd Pwyllgor a Chlerc / Cadeirydd CTCh gan y Swyddog Monitro a / neu'r Prif Swyddog Craffu a Gwasanaethau Democrataidd. Cyflwynwyd adroddiad "trosolwg a gwersi a ddysgwyd" o'r holl ymweliadau a gynhaliwyd hefyd yng nghyfarfod y Pwyllgor Safonau ym mis Mawrth 2022.

Roedd Aelodau Annibynnol y Pwyllgor Safonau hefyd wedi dechrau ymweliadau arsylwi wedi derbyn rhestr o ddyddiadau cyfarfodydd CTCh yn y dyfodol er mwyn gallu cynnal ymweliadau arsylwi pellach ar gyfer 2022/23.

Dywedodd Mrs. Tinsley ei bod wedi mynychu cyfarfod Cyngor Tref Penarth a fu'n gyfarfod braf a gynhaliwyd o bell gydag agenda amserol a dywedodd iddo gael ei gadeirio'n dda.

Dywedodd Mr Watkins, ar ôl arsylwi ar gyfarfod Cyngor Cymuned Llandochoau, fod y cyfarfod wedi'i fynychu a'i gynnal yn dda iawn gyda'r Cadeirydd mewn rheolaeth ac yn derbyn cyngor gan y Clerc fel y bo'n briodol. Daeth Mr Watkins i ben drwy ddweud ei fod wedi bod yn glir iddo fod pawb a oedd yn bresennol wedi gwneud eu "gwaith cartref" mewn perthynas â'r agenda.

Dywedodd Mr Hendicott ei fod wedi mynychu cyfarfod Cyngor Tref y Bont-faen a'i fod yn teimlo bod y cyfarfod wedi'i gynnal yn dda. Roedd gan y Cadeirydd arddull ddymunol ac roedd wedi bod mewn rheolaeth yn ystod y cyfarfod gan gael ei gynorthwyo'n fedrus gan y Clerc. Fodd bynnag, cyfeiriodd at fater mewn perthynas â Datganiadau Buddiannau, lle datganodd dau Gynghorydd fuddiant personol mewn mater ond gan beidio ag esbonio'r rhesymau. Cadarnhaodd y Swyddog Monitro ei bod yn ofyniad, pryd bynnag y datganodd unrhyw Aelod fuddiant, ei fod yn datgelu natur y buddiant hwnnw. Daeth y Swyddog Monitro i ben drwy ddweud y byddai'n rhannu'r cyngor hwn eto gyda holl Glercod CTCh yng nghyfarfod nesaf y Swyddog Monitro gyda'r Clercod.

Dywedodd Mr Hendicott, yn ei farn ef, y dylai'r Aelodau fod wedi gadael yr ystafell pe bai ganddyn nhw fuddiant, fodd bynnag, dywedodd y Swyddog Monitro y byddai hynny wedi bod yn ddibynnol ar natur y buddiant, o ran a oedd yn fuddiant personol neu'n fuddiant personol a rhagfarnus, a fyddai'n fater i'r Cynghorydd unigol. Nodwyd y gallai unrhyw Aelod gyda buddiant personol neu ragfarnus mewn mater hefyd wneud cais am oddefeb i'w hystyried gan y Pwyllgor Safonau. Roedd holl Glercod ac Aelodau CTCh yn ymwybodol o'r ddarpariaeth hon.

PENDERFYNWYD –

(1) NODI'r adroddiad a'r adborth a dderbyniwyd yn y cyfarfod ynghylch ymweliadau arsylwi i gynhaliwyd gan Aelodau Annibynnol y Pwyllgor Safonau.

(2) RHANNU sylwadau'r Aelodau Annibynnol gyda'r Cynghorau Tref a Chymuned perthnasol.

Rheswm dros y penderfyniadau

(1&2) Wedi ystyried yr arsylwadau a wnaed a rôl y Pwyllgor Safonau.

483 GOHEBIAETH GYDAG OMBWDSMON GWASANAETHAU CYHOEDDUS CYMRU (SM/PGCD) –

Nododd yr adroddiad y byddai'r Swyddog Monitro yn rhoi'r wybodaeth ddiweddaraf i Aelodau'r Pwyllgor yn y cyfarfod dan Ran II yr agenda mewn perthynas â gohebiaeth ddiweddar a materion sy'n codi yn unol â gweithdrefnau Ombwdsmon Gwasanaethau Cyhoeddus Cymru a oedd yn gyfrinachol eu natur.

Roedd yr eitem yn eitem sefydlog ar yr agenda er mwyn i'r Swyddog Monitro allu rhoi gwybod i'r Aelodau fel y bo'n briodol.

PENDERFYNWYD – Nodi cynnwys yr adroddiad, gan ystyried y byddai diweddariad ar yr ohebiaeth a dderbyniwyd gan Ombwdsmon Gwasanaethau Cyhoeddus Cymru ac y byddai unrhyw faterion sy'n codi dan Ran II yr adroddiad yn cael eu hystyried dan Ran II yr agenda.

Rheswm dros y penderfyniad

I hysbysu'r Aelodau o'r Pwyllgor.

484 MATER OEDD Y CADEIRYDD WEDI PENDERFYNU YN FRYS –

PENDERFYNWYD – Y dylid ystyried y mater canlynol yr oedd y Cadeirydd wedi penderfynu ei fod yn fater brys am y rhsewm a roddwyd o dan bennawd y cofnodion.

485 DIWEDDARIAD AR Y FFORWM CENEDLAETHOL (SM/PGCD) –

Mater yr oedd y Cadeirydd wedi penderfynu ei fod yn fater brys er mwyn hysbysu'r Pwyllgor am y cynnydd o ran sefydlu'r Fforwm Safonau Cenedlaethol gyda'r cyfarfod cyntaf i'w gynnal ar 8 Rhagfyr, 2022.

Cafodd y Pwyllgor wybod am gynnydd yn cael ei wneud mewn perthynas â sefydlu Fforwm Cenedlaethol ar gyfer Aelodau Annibynnol Pwyllgorau Safonau. Nodwyd bod cyfarfod cyntaf y Fforwm Pwyllgorau Safonau Cenedlaethol wedi'i drefnu ar gyfer 8 Rhagfyr, 2022. Rhoddodd yr adroddiad fanylion y Cylch Gorchwyl oedd i'w ystyried yn y cyfarfod ar 8 Rhagfyr, 2022 fel y'i cynhwysir ym mharagraffau 2.4 i 2.8 yr adroddiad, ac eitemau ychwanegol y cyfeirir atynt ym mharagraff 2.10 yr adroddiad. Dywedodd y Cadeirydd a'r Swyddog Monitro y byddai'r ddau ohonynt yn mynd i'r cyfarfod.

Gyda golwg ar gynnwys yr adroddiad, yr oedd wedi hynny

PENDERFYNWYD – Nodi'r adroddiad diweddarau

Rheswm dros y penderfyniad

Hysbysu Aelodau'r Pwyllgor.

486 GWAHARDD Y WASG A'R CYHOEDD –

PENDERFYNWYD – O dan Adran 100A (4) o'r Deddf Llywodraeth Leol 1972, bod y wasg a'r cyhoedd yn cael eu heithrio o'r cyfarfod ar gyfer yr eitem fusnes ganlynol ar y sail ei bod yn debygol o gynnwys datgeliad o wybodaeth eithriedig fel y'i diffinnir yn Rhan 4 o'r Atodlen 12A (fel y'i diwygiwyd) o'r Ddeddf, y cyfeirir at baragraffau perthnasol yr Atodlen mewn cromfachau ar ôl y pennawd munud.

487 GOHEBIAETH GYDAG OMBWDSMON GWASANAETHAU
CYHOEDDUS CYMRU (GWYBODAETH EITHRIEDIG –
PARAGRAFFAU 12, 13 A 14) -

Fel yr amlinellwyd yn Rhan I o'r agenda, cytunwyd gan y Pwyllgor Safonau bod eitem sefydlog yn ymddangos ar agenda'r Pwyllgor er mwyn i'r Swyddog Monitro allu dweud wrth Aelodau'r Pwyllgor Safonau am ohebiaeth a dderbyniwyd gan Ombwdsmon Gwasanaethau Cyhoeddus Cymru (yr Ombwdsmon) ar unrhyw faterion sy'n codi, gyda'r eitemau'n aros yn gyfrinachol eu natur yn unol â gweithdrefn yr Ombwdsmon.

Felly, rhoddodd y Swyddog Monitro ddiweddariad llafar i'r Pwyllgor ar ohebiaeth gyfrinachol ddiweddar gyda'r Ombwdsmon. Gan nad oedd unrhyw gwestiynau mewn perthynas â'r wybodaeth a roddwyd yn y cyfarfod,

PENDERFYNWYD – NODI'r wybodaeth gyfrinachol a roddwyd gan y Dirprwy Swyddog Monitro yn y cyfarfod.

Rheswm dros y penderfyniad

Wedi ystyried gohebiaeth a dderbyniwyd gan yr Ombwdsmon, gan nodi ei bod yn gyfrinachol ar hyn o bryd.